# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 02-06

### Dyddiad y cyfarfod: 9 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00-11.13
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Gwahoddedigion Sefydlog

| | |
|---|---|
| Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |

#### Swyddogion yn bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Cathy Presland | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

| | |
|---|---|
| Anna Daniel | Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

### Eraill yn bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au)** |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | |
| Alun Cairns AC | Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad | 4 |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Sarah Bartlett | Diprwy Glerc |

### Eitem 1: Cyflwyniad Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Nododd y Cadeirydd fod Sandy Mewies, Jonathan Morgan AC, Mike German AC, Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE a Rose D'Sa wedi ymddiheuro.

1.2 O dan Reol Sefydlog 8.20, penododd y Pwyllgor Christine Gwyther yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant

1.4 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r materion sy'n codi

**Papur: EUR(2) 09-05 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd**
**Papur: EUR(2) 01-06 – Camau heb eu cymryd**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd yn gywir.

2.2 Rhoddodd Des Clifford y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Pwyllgor am ddau gam gweithredu'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith a Sefydliad Technoleg Ewrop.

**Eitem 3: Adroddiad Prif Weinidog Cymru**

**Papur: EUR(2) 02-06 (p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad.

**Cam i'w gymryd:**

- Cytunodd Prif Weinidog Cymru y byddai'n paratoi nodyn i'r Pwyllgor ynghylch mewnforio bwyd GM i'r UE cyn gynted ag y bydd Sefydliad Masnach y Byd wedi cyhoeddi ei ddyfarniad terfynol.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**

**Papur: EUR(2) 02-06 (p.2)**

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Alun Cairns AC, Cadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Cangen Cymru.

**Eitem 5: Goblygiadau Cyllideb yr UE**

**Papur: EUR(2) 02-06 (p.3)**

5.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd gan ofyn am gael eu cynnwys ym mhroses ymgynghori'r Rhaglenni Gweithredol.

**Eitem 6: Llywyddiaeth REGLEG (Y Rhanbarthau Ewropeaidd sydd â Phwerau Deddfu)**

**Papur: EUR(2) 02-06 (p.4)**

6.1 Croesawodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y swyddogion a Phrif Weinidog Cymru gan ofyn iddynt barhau i roi gwybod iddynt am hynt y llywyddiaeth.

**Cam i'w gymryd**

- Cytunodd y Clerc y byddai'r Pwyllgor yn trafod yr eitem hon yn ddiweddarach eleni.

**Eitem 7: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau**

8.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd ar lafar gan Rosemary Butler a Janet Davies.

**Papur i’w nodi: EUR(2) 02-06 (p5) – Rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2006 – blaenoriaethaau**

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**